



Annwyl Gwsmer,

Mae'n dda gennym roi gwybod i chi y byddwn, mewn cydweithrediad â Payzone, yn agor gwasanaeth Swyddfa'r Post newydd yn eich ardal yn Siop Gyfleustra a Siop Frechdanau Zak, 1 Heol Clarendon, Pen-y-lan, CF23 9JD, gan ddechrau ddydd Iau 28 Medi 2023 am 13:00.

Bydd y gwasanaeth yn un o'n canghennau Gollwng a Chasglu, sef math newydd o fformat ysgafnach i'n canghennau. a ddatblygwyd i gymryd mantais o'r cyfleoedd yn y farchnad barseli rhagdaledig ac i'n helpu i fynd i'r afael â bylchau o ran darparu gwasanaeth.

Bydd y cyfleuster Gollwng a Chasglu newydd yn Siop Gyfleustra a Siop Frechdanau Zak yn cynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post o ddyfais sy'n cael ei ddal yn y llaw, ac yn ei gwneud yn hwylus i gwsmeriaid dalu biliau a chasglu a dychwelyd parseli rhagdaledig. Er mwyn gwella hygyrchedd y gwasanaethau hyn y mae cwsmeriaid yn chwilio'n gynyddol amdanynt, ni fydd gwasanaethau mwy cymhleth megis bancio personol a busnes ar gael yn y gangen hon. Mae manylion am yr oriau agor a'r cynhyrchion a gwasanaethau sydd ar gael i'w gweld drosodd. Os bydd rhaid newid y dyddiad agor am resymau annisgwyl, bydd posteri'n cael eu gosod yn y siop er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae dewis ehangach o wasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o ganghennau gerllaw, sef Swyddfa Bost Llanedern, Uned 1, Cwrt Lewis, Maelfa, Llanedern, Caerdydd, CF23 9PL a Swyddfa Bost Tredelerch, 761 Heol Casnewydd, Tredelerch, Caerdydd, CF3 4AJ. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar gael ar ein gwefan yn [www.postoffice.co.uk/branch-finder](http://www.postoffice.co.uk/branch-finder)

Mae croeso i chi rannu'r wybodaeth hon trwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a'i rhannu ag eraill a allai fod â diddordeb i glywed am y gangen newydd a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ganddi.

Mae'r cyfathrebiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â'r Hysbysiad hwn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Gobeithiwn y byddwch chi a'r gymuned leol yn cefnogi rhwydwaith Swyddfa'r Post yn eich ardal.

Yr eiddoch yn gywir,

*Natalie Liff*

**Natalie Liff**

**Rheolydd Cynigion**

**Cynigion Rhwydwaith**

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk

postofficeviews.co.uk

FREEPOST Your Comments

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

<b>Oriau agor a'r gwasanaethau Swyddfa'r Post sydd ar gael</b>	
Llun – Gwen	08:00 – 19:00
Sul	09:00 – 19:00
<b>Post</b>	
Casglu a dychwelyd parseli – rhagdaledig yn unig	
<b>Arall</b>	
Talu biliau	
Gwasanaeth adlenwi ffôn symudol	
<b>I gael gwybod a yw cynnyrch ar gael, ffoniwch 03457 22 33 44.</b>	

## **Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - [postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)

Rydym wedi ymrwmo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau dros dro<sup>1</sup>/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn).

**Postofficeviews.co.uk**

[Comments@postoffice.co.uk](mailto:Comments@postoffice.co.uk)

**FREEPOST Your Comments**

**Ffoniwch: 03452 66 01 15**

**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

<sup>1</sup> Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhodddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth Lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.